Adran Gwaith a Phensiynau

# Cael help gan **Lwfans Mamolaeth**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **MAT1WER** 08/23

# Cynnwys


1



**Cyflwyniad**

Tudalen 4


2



**Tâl Mamolaeth Statudol**

Tudalen 6

3



**Lwfans Mamolaeth**

Tudalen 9

4



**Hunangyflogedig**

Tudalen 12

# Cynnwys

5



**Sut i wneud cais**

Tudalen 14


6



**Beth i'w anfon**

Tudalen 18

7



**Ein penderfyniad**

Tudalen 20

8



**Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad**

Tudalen 21

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Lwfans Mamolaeth yn fudd-dal o'r Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n cael ei dalu i:

- Pobl sy'n feichiog neu
- Pobl sydd wedi cael genedigaeth yn ddiweddar

ac ni allant gael Tâl Mamolaeth Statudol o'r gwaith, neu'n hunangyflogedig.




Mae faint o Lwfans Mamolaeth a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau.





Mae’r wybodaeth hon yn dweud wrthych:

- Beth yw Lwfans Mamolaeth
- Pwy all wneud cais
- Sut i wneud cais.

# 2 Tâl Mamolaeth Statudol



Os ydych yn gweithio i gyflogwr, efallai y byddwch yn cael Tâl Mamolaeth Statudol yn lle Lwfans Mamolaeth.




Ni allwch gael y ddau o'r rhain ar yr un pryd.

## I gael Tâl Mamolaeth Statudol, mae'n rhaid i chi:




- Wedi gweithio i'ch cyflogwr am o leiaf 26 wythnos



- Wedi ennill o leiaf £120 yr wythnos ar gyfartaledd (yn ystod rhai wythnosau)



- Dal i gael eich cyflogi gan yr un cyflogwr 15 wythnos cyn yr wythnos y disgwyir eich babi.



Os ydych yn ansicr a allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol, siaradwch â'ch cyflogwr cyn gynted â phosibl.



Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

**Os ydych yn gyflogwr**

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon pan nad oes hawl gan gyflogai i gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP), neu pan na allwch barhau i dalu SMP. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen.

Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn y ffurflen hon yn helpu'r Ganolfan Byd Gwaith i benderfynu ar gais eich cyflogai am Lwfans Mamolaeth.

**Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, rhaid i chi ei rhoi i'r cyflogai gyda'r Dystysgrif Mamolaeth MAT B1W wreiddiol y gwnaeth eich cyflogai ei rhoi i chi.** Yna gallai wneud cais am fudd-dal.

I gael mwy o wybodaeth am SMP ewch i **www.gov.uk/employers-maternity-pay-leave**

Neu gallwch gysylltu â llinell gymorth Cyflogwyr Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3200.**

Os na all eich cyflogwr dalu Tâl Mamolaeth Statudol i chi, mae'n rhaid iddyn nhw roi'r ffurflen o'r enw **SMP1W** i chi.



Mae'r SMP1W yn esbonio pam na allwch gael Tâl Mamolaeth gan eich cyflogwr.




Mae'n rhaid i chi gadw'ch SMP1W yn ddiogel.

Mae angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau ei weld.


I gael mwy o wybodaeth am Dâl Mamolaeth Statudol, ewch i [www.gov.uk/tal-absenoldeb-mamolaeth](http://www.gov.uk/tal-absenoldeb-mamolaeth)

# 3 Lwfans Mamolaeth



Fel rheol, mae Lwfans Mamolaeth yn cael ei dalu os yw rhywun yn feichiog ac:

- Yn hunangyflogedig
- Wedi stopio gweithio yn ddiweddar
- Yn gyflogedig ond ni all eu cyflogwr dalu Tâl Mamolaeth Statudol iddynt.





Mae'ch cais am Lwfans Mamolaeth yn cael ei benderfynu ar y gwaith rydych wedi'i wneud yn ystod eich **Cyfnod Prawf**.

?

**Esbonio beth yw Cyfnod Prawf**

Eich **Cyfnod Prawf** yw'r 66 **wythnos cyn** yr wythnos y disgwylir eich babi.




Gallwch ddefnyddio ein cyfrifiannell ar-lein i ddarganfod dyddiadau eich Cyfnod Prawf.

I gael mwy o wybodaeth am gyfrifo'ch Cyfnod Prawf, ewch i [secure.dwp.gov.uk/check-your-maternity-allowance-dates/date-baby-due/](https://secure.dwp.gov.uk/check-your-maternity-allowance-dates/date-baby-due/)




**66 Wythnos**

Bydd angen i chi gynnwys eich Dyddiadau Cyfnod Prawf yn eich ffurflen gais.




**26 Wythnos**

Mae'n rhaid i chi fod wedi gweithio am o leiaf 26 wythnos o'ch **Cyfnod Prawf**.



Gall hyn fod naill ai’n waith cyflogedig neu’n hunangyflogedig neu’n gymysgedd o’r ddau.




Gallwch ddewis unrhyw 26 wythnos yn eich **Cyfnod Prawf**.

Nid oes yn rhaid iddynt fod yn un ar ôl y llall.




Mae’n rhaid i chi fod wedi ennill £30 neu fwy mewn o leiaf 13 o’r 26 wythnos hynny.

I gael mwy o wybodaeth am eich **Cyfnod Prawf**, ewch i [www.gov.uk/government/publications/maternity-allowance-claim-form.cy](www.gov.uk/government/publications/maternity-allowance-claim-form.cy)

# 4 Hunangyflogedig



Os ydych yn hunangyflogedig, mae’n rhaid eich bod wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 i gael cyfradd safonol y Lwfans Mamolaeth.





Os nad ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, efallai y byddwch yn dal i dderbyn Lwfans Mamolaeth ond ar gyfradd is.



I gael swm safonol y Lwfans Mamolaeth, efallai y bydd angen i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn gynnar i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

Cyllid a
Thollau EM

Bydd HMRC yn anfon llythyr atoch ar ôl i chi hawlio Lwfans Mamolaeth os yw hyn yn berthnasol i chi.




Bydd y llythyr yn dweud wrthych sut i wneud taliad cynnar o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

# 5 Sut i wneud cais



I wneud cais am Lwfans Mamolaeth, mae angen i chi lenwi ffurflen o'r enw **MA1W**.

I'w gael ar-lein, ewch i:
www.gov.uk/government/publications/maternity-allowance-claim-for.cy



Gallwch naill ai lenwi'r ffurflen MA1W ar eich cyfrifiadur, ffôn symudol neu dabled ac yna ei hargraffu.



Neu gallwch argraffu ffurflen wag a'i llenwi â beiro.




Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i:

Wrexham Maternity Allowance
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1SU



Os na allwch argraffu'r ffurflen, gallwch archebu un ar-lein.

I archebu ffurflen ar-lein, ewch i: secure.dwp.gov.uk/ask-for-a-maternity-allowance-claim-form/



**Gogledd Iwerddon**

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, mae yna broses wahanol i archebu ffurflen MA1.

Ewch i: www.nidirect.gov.uk/articles/maternity-allowance#toc-3

I gael mwy o wybodaeth os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ewch i: www.nidirect.gov.uk/articles/maternity-allowance




Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfnewid Fideo.

Darganfyddwch a allwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar yr un dudalen we.




Os oes angen yr MA1W arnoch mewn fformat amgen fel Braille neu brint bras, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.



Ffôn: **0800 055 6688**

Ffôn testun: **0800 023 4888**




Os na allwch siarad na chlywed ar y ffôn, gallwch ddefnyddio Relay UK:

**18001** yna **0800 055 6688**

# 6 Beth i'w anfon




I wneud penderfyniad ar eich cais, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau angen i chi anfon rhai dogfennau.



MAT B1W

**I'R MEDDYG NEU'R FYDWRAIG – Cwblhewch y ffurflen hon mewn inc.**

**Enw'r claf**

**Rhif y dystysgrif**

Rhan A

Cwblhewch y rhan hon os ydych yn rhoi'r dystysgrif cyn y cyfnod geni.

Peidiwch â'i chwblhau fwy nag 20 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni.

Tystiaf fy mod wedi cynnal archwiliad arnoch ar y dyddiad a nodir isod. Yn fy marn i, gallwch ddisgwyl cael eich babi yn ystod yr wythnos sy'n cynnwys ....../....../.......

Mae wythnos yn golygu cyfnod o 7 diwrnod sy'n dechrau ar ddydd Sul ac yn gorffen ar ddydd Sadwrn.

Rhan B

*Cwblhewch y rhan hon os ydych yn rhoi'r dystysgrif **ar ôl** y cyfnod geni.*

Tystiaf fy mod wedi eich gweld mewn perthynas â'r enedigaeth a ddigwyddodd ar ........../........../.......... pan roesoch enedigaeth i blentyn [ ] o blant.

Yn fy marn i, roedd disgwyl i'ch babi gael ei eni yn yr wythnos sy'n cynnwys ........../........../..........

**Dyddiad yr archwiliad** ........../........../..........

**Dyddiad llofnodi** ........../........../..........

**Llofnod** ........../........../..........

**Bydwragedd cofrestredig**

Rhowch eich Rhif Adnabod Personol NMC a'r dyddiad y daw eich cofrestriad gyda NMC i ben.

**Meddygon**

Stampiwch eich enw a'ch cyfeiriad yma os nad yw'r ffurflen wedi'i stampio gan yr Awdurdod Iechyd yr ydych wedi'ch cynnwys ar ei restr feddygol.

Ynghyd â'ch ffurflen gais **MA1W** wedi'i chwblhau, gall hyn gynnwys:

- Tystiolaeth o'r dyddiad y mae disgwyl i'ch babi gael ei eni (fel ffurflen **MATB1W** gan eich darparwr gofal iechyd)



Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

**Os ydych yn gyflogwr**

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon pan nad oes hawl gan gyflogai i gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP), neu pan na allwch barhau i dalu SMP. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen.


Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn y ffurflen hon yn helpu'r Ganolfan Byd Gwaith i benderfynu ar gais eich cyflogai am Lwfans Mamolaeth.

**Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, rhaid i chi ei rhoi i'r cyflogai gyda'r Dystysgrif Mamolaeth MAT B1W wreiddiol y gwnaeth eich cyflogai ei rhoi i chi.** Yna gallai wneud cais am fudd-dal.

I gael mwy o wybodaeth am SMP ewch i **www.gov.uk/employers-maternity-pay-leave**


Neu gallwch gysylltu â llinell gymorth Cyflogwyr Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3200.**

- **SMP1W** gan eich cyflogwr (os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol ganddynt)





- Tystiolaeth o’ch incwm fel slipiau cyflog.

# 7 Ein penderfyniad




Ar ôl i chi anfon eich holl ddogfennau, dylech gael penderfyniad ar eich cais o fewn 20 diwrnod gwaith.




Os yw'ch cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau manylion eich cais.



Bydd y llythyr yn cynnwys:

- Swm eich Lwfans Mamolaeth
- Am faint fyddwch yn cael hwn
- Diwrnod olaf eich cyflogaeth (os yw hyn yn berthnasol).

# 8 Os nad ydych yn cytuno â’n penderfyniad



Os nad ydych yn cytuno â’n penderfyniad, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.



Pan edrychwn ar y penderfyniad eto, rydym yn ei alw’n **Ailystyriaeth Orfodol**.

?

Mae **‘Ailystyriaeth Orfodol’** yn golygu byddwn yn edrych ar:

- Y wybodaeth a roesoch i ni yn wreiddiol
- Unrhyw wybodaeth newydd rydych yn ei rhoi
- A oes unrhyw newidiadau wedi bod yn eich amgylchiadau.

Rydym yn defnyddio’r wybodaeth hon i weld a allwn newid ein penderfyniad.

# 1
# mis


Fel arfer mae angen i chi ofyn i ni edrych ar eich cais eto o fewn **1 mis** i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.



Os hoffech siarad â ni am eich penderfyniad, ffoniwch linell yr ymholiad Lwfans Mamolaeth ar:

Telephone: **0800 169 0283**

Textphone: **0800 169 0286**



Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 169 0283**



Gallwch ysgrifennu llythyr yn dweud wrthym pam nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad.

Anfonwch eich llythyr i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad.




Os nad oes gennych eich llythyr penderfyniad, cysylltwch â'r swyddfa lle gwnaethoch gais am y budd-dal.




Gallwch hefyd lenwi ffurflen gais **Ailystyriaeth Orfodol**.

I gael y ffurflen a dysgu mwy am **Ailystyriaeth Orfodol**, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chiliwch am **Challenge a decision made by the Department for Work and Pensions (DWP)**.